Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Bro Gwaun**
**Heol Dyfed**
**Abergwaun**
**Sir Benfro**
**SA65 9DT**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod
The Corporate Standard
Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd
Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/07/2012**

## Cyd-destun

Ysgol gyfun gymysg 11-18 oed gyda 621 o ddisgyblion yw Ysgol Bro Gwaun, sydd wedi'i lleoli rhwng trefi Abergwaun ac Wdig yn Sir Benfro. Mae ganddi 52 o athrawon, ac mae saith o'r rhain yn rhan-amser, ac mae 48.8 o athrawon cyfwerth ag amser llawn. Mae ganddi wyth aelod o staff cymorth amser llawn a 27 aelod o staff cymorth rhan-amser.

Mae'n gwasanaethu ardal sy'n gymysg o ran ei heconomi, lle bu gostyngiad mewn gweithgynhyrchu yn ddiweddar. Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yw 15.9%, sy'n is na ffigur Cymru, sef 17.4% ar gyfer ysgolion uwchradd. Canran y disgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig yw 2.4%, sydd ychydig islaw cyfartaledd Cymru, sef 2.6%. Fodd bynnag, canran gyffredinol y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yw 51% ar hyn o bryd, sydd gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 20.2%. Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda lefelau isel o lythrennedd a rhifedd, ac mae canlyniadau profion safonedig a gynhaliwyd gan yr awdurdod lleol yn dangos bod oedran llythrennedd swyddogaethol 44% o'r Flwyddyn 7 bresennol islaw'r oedran llythrennedd swyddogaethol, sef 9.5 oed.

Mae traean o'r disgyblion yn rhugl yn y Gymraeg, er mai chwarter ohonynt yn unig sy'n siarad Cymraeg gartref, ac mae 60% arall yn gallu siarad Cymraeg, ond nid yn rhugl. Mae'r rhan fwyaf o'r siaradwyr rhugl yn astudio Cymraeg fel mamiaith. Mae'r ysgol yn darparu chwe phwnc trwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 3 a dau yng nghyfnod allweddol 4.

Mae'r ysgol yn aelod o Ffederasiwn Gogledd Sir Benfro, sef grŵp o ysgolion uwchradd a'r coleg addysg bellach lleol, sy'n bodoli i ehangu ystod ac argaeledd y cyrsiau yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16.

Mae'r ysgol wedi cael ei rheoli am bum tymor gan y dirprwy bennaeth, sy'n gweithredu fel pennaeth dros dro, wedi'i gynorthwyo gan uwch aelodau eraill mewn swyddi dros dro. Bydd pennaeth newydd yn dechrau ym Medi 2012.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bro Gwaun yn 2011-2012 yw £5,073. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd yn Sir Benfro yw £5,073 a'r isafswm yw £4,071. Mae Ysgol Bro Gwaun yn gyntaf o'r wyth ysgol uwchradd yn Sir Benfro o ran cyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Digonol |

## Perfformiad presennol

Mae'r nodweddion da yng ngwaith yr ysgol yn cynnwys:

- y gwelliant mewn perfformiad yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a oedd yn agos at y cyfartaledd ar gyfer Cymru ac ysgolion tebyg yn 2011;
- y nifer fach iawn o ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol heb gymwysterau;
- y safonau da a gyflawnir mewn llawer o wersi;
- agweddau disgyblion at yr ysgol a'u gwersi;
- yr ethos cynhwysol, ansawdd y cwricwlwm, a'r gweithgareddau allgyrsiol helaeth;
- y systemau sy'n galluogi staff i olrhain cynnydd disgyblion;
- y cymorth a roddir i ddisgyblion sydd ag anawsterau llythrennedd a rhifedd;
- ansawdd da'r addysgu mewn llawer o wersi; ac
- arweinyddiaeth effeithiol y pennaeth dros dro a'r tîm rheoli.

Fodd bynnag, bernir bod perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod perfformiad mewn arholiadau cyhoeddus ac asesiadau yn y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn anghyson ac islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ac ysgolion tebyg;
- bod bechgyn a disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn tanberfformio'n sylweddol;
- bernir bod safonau gwaith ac ansawdd yr addysgu'n ddigonol mewn rhai gwersi, neu'n anfoddhaol mewn ychydig iawn o wersi;
- bod gormod o ddisgyblion yn cyflwyno eu gwaith yn anniben ac yn gwneud camgymeriadau diangen; a
- bod anghysondeb yn ansawdd marcio gwaith disgyblion.

## Rhagolygon gwella

Bernir bod rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod synnwyr cryf o gydweithio ymhlith staff ar bob lefel;
- bod digonedd o arfer dda y gellir ei defnyddio yn sylfaen ar gyfer gwella ymhellach;
- bod y pennaeth dros dro a'r tîm rheoli yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn ymwybodol o'r hyn y mae angen ei wella;
- bod y cynllun datblygu ysgol yn cynnwys materion priodol i'w gwella, ond nid yw'n ddigon manwl mewn mannau ac ni chaiff ei weithredoedd eu blaenoriaethu'n ddigonol;

- nid yw gweithdrefnau hunanarfarnu yn ddigon rheolaidd nac eang;
- nid oes digon o drylwyredd wedi bod wrth sicrhau gwelliant mewn rhai meysydd;
- nid oes digon o arsylwadau gwersi i fonitro safonau ac ansawdd yr addysgu a lledaenu arfer dda; ac
- nid yw'r ysgol wedi mynd i'r afael â rhai o'r argymhellion o'r adroddiad arolygu blaenorol yn llawn.

## Argymhellion

Mae angen i staff a llywodraethwyr Ysgol Bro Gwaun:

A1 godi safonau yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, yn enwedig ymhlith bechgyn;

A2 gwella ansawdd llawysgrifen, cyflwyno a sillafu disgyblion;

A3 cynyddu cwmpas a thrylwyredd hunanarfarnu;

A4 gwella cysondeb ac effaith marcio; a

A5 datblygu rôl llywodraethwyr fel ffrindiau beirniadol yr ysgol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion yn cael ei fonitro gan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 3 wedi gwella dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn 2011, llwyddodd y perfformiad mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth o'u cyfuno i fodloni'r disgwyliadau ar sail perfformiad disgyblion yn yr ysgol gynradd. Fodd bynnag, roedd islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg ac ychydig islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad wedi gwella'n gyson yn y ddwy flynedd ddiwethaf, ond dim ond i'r un lefel ag yn 2008. Yn 2011, roedd yn agos at y cyfartaledd ar gyfer Cymru ac ar gyfer ysgolion tebyg yn y prif ddangosyddion perfformiad, ar ôl bod islaw'r rhain yn y ddwy flynedd flaenorol. O gymharu â pherfformiad yng nghyfnod allweddol 2, roedd ychydig uwchlaw'r disgwyliadau ar gyfer dangosyddion yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, ac ychydig islaw'r disgwyliadau ar gyfer dangosyddion nad ydynt yn cynnwys y pynciau hyn.

Mae perfformiad yn y pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 4 wedi bod yn anghyson. Mewn Saesneg a mathemateg, bu gwelliant ynddo'r llynedd, ond roedd yn parhau i fod islaw'r cyfartaleddau ar gyfer ysgolion tebyg a Chymru gyfan. Roedd perfformiad mewn Cymraeg yn well na'r cyfartaleddau ar gyfer ysgolion tebyg a Chymru gyfan yn 2011, ond islaw'r rhain yn y ddwy flynedd flaenorol. Mewn gwyddoniaeth, mae perfformiad wedi bod yn gyson well na chyfartaledd Cymru ac wedi cymharu'n dda â'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg.

Mae perfformiad bechgyn fel arfer yn waeth na pherfformiad merched. Yng nghyfnod allweddol 3, mae bechgyn fel arfer yn wannach na merched mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ond mewn Cymraeg, mae pob un o'r disgyblion wedi cyflawni'r lefel 5 ddisgwyliedig yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched fel arfer yn agos at y bwlch cyfartalog ar gyfer Cymru gyfan ar lefel 5, ond yn aml yn ehangach ar lefelau uwch. Yng nghyfnod allweddol 4, mae bechgyn yn aml wedi perfformio cryn dipyn yn waeth na merched. Yn 2011, roedd y bwlch yn eang iawn mewn Saesneg, ac yn fawr, ond yn llai nodedig mewn Cymraeg hefyd. Roedd gwahaniaethau eang yn 2010 hefyd. Mewn mathemateg a gwyddoniaeth, roedd y bwlch gryn dipyn yn ehangach nag ydoedd ar gyfer Cymru gyfan yn 2011 ond yn eithaf bach yn 2010. Mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill yn llawer ehangach nag y mae yn genedlaethol yng nghyfnod allweddol 4, ond yn llai arwyddocaol yng nghyfnod allweddol 3. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da yng nghyfnod allweddol 3 ar y cyfan.

Yn y chweched dosbarth, mae cyflawniad ar drothwy lefel 3 wedi bod yn gyson agos at gyfartaledd Cymru.

Yn y tair blynedd diwethaf, ychydig iawn o ddisgyblion sydd wedi gadael addysg amser llawn heb gymhwyster.

Mewn llawer o wersi, mae safonau cyflawniad a chynnydd yn dda mewn perthynas â gallu disgyblion, er mai anaml iawn y maent yn rhagorol. Mewn lleiafrif o wersi, mae safonau'n ddigonol, neu'n anfoddhaol mewn ychydig iawn ohonynt. Mae'r disgyblion mwyaf abl yn gwneud cynnydd da fel arfer. Mae disgyblion llai abl yn gwneud cynnydd da pan fydd y gwaith yn cynnig her briodol. Maent yn aml yn gwneud cynnydd arbennig o dda mewn sesiynau ychwanegol sydd wedi'u hanelu at wella medrau llythrennedd a rhifedd. Mae cynnydd disgyblion eraill fel arfer yn ddigonol neu'n dda. Mewn ychydig iawn o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd am nad ydynt yn cymryd digon o sylw, neu maent yn camymddwyn o bryd i'w gilydd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn canolbwyntio'n dda ac yn gwrando'n ofalus ar yr athro ac ar ei gilydd. Maent yn ymddwyn yn dda iawn ac yn dangos agwedd gadarnhaol at eu gwaith. Gwna llawer ohonynt gyfraniadau hyderus ar lafar wrth ateb cwestiynau'r athro ac wrth drafod materion mewn grwpiau, pan nad ydynt yn swil i roi eu barn. Fodd bynnag, mae ansawdd y mynegiant weithiau'n gyfyngedig. Mae lleiafrif ohonynt yn holi cwestiynau da i ymestyn eu dealltwriaeth ac yn barod i gymryd rhan mewn trafodaeth estynedig. Mae mwyafrif ohonynt yn darllen yn dda i gael gwybodaeth, er lleiafrif ohonynt yn unig sy'n darllen yn uchel gyda rhugldder. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos parodrwydd i feddwl drostynt eu hunain a datrys problemau.

Caiff disgyblion ddealltwriaeth gynyddol dda o'u gwersi iaith o sut i ysgrifennu'n effeithiol. Fodd bynnag, mae tua hanner y disgyblion yn defnyddio ystod gyfyngedig o strwythurau a geirfa, neu'n gwneud gormod o gamgymeriadau mewn gramadeg ac atalnodi, tra bod llawer ohonynt yn gwneud camgymeriadau sillafu. Mae lleiafrif o ddisgyblion, yn enwedig bechgyn, yn cyflwyno eu gwaith yn anniben a gyda llawysgrifen wael. Mae rhai disgyblion â medrau cyflwyno gwael yn elwa ar gyfleoedd i ysgrifennu gan ddefnyddio cyfryngau electronig i gyflwyno'u gwaith yn ddestlus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn astudio cwrs llawn mewn Cymraeg hyd at TGAU naill ai mewn Cymraeg mamiaith neu mewn Cymraeg ail iaith, yn dibynnu ar lefel eu gwybodaeth pan fyddant yn dechrau'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn deall rhywfaint o Gymraeg ac yn gallu defnyddio'r Gymraeg mewn rhai sefyllfaoedd bob dydd. Mae lleiafrif ohonynt yn siarad i safon mamiaith ac yn defnyddio'r iaith yn hyderus mewn sefyllfaoedd mwy cymhleth. Mae agweddau disgyblion at siarad a dysgu Cymraeg yn dda iawn. Roedd canlyniadau TGAU yn dda y llynedd mewn Cymraeg mamiaith a Chymraeg ail iaith fel ei gilydd.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn cael cymorth personol da. Maent yn gwybod gyda phwy i siarad os oes ganddynt unrhyw bryderon. Mae'r disgyblion hefyd yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n briodol â'r achosion prin o fwlio sy'n codi. Dywed y rhan fwyaf ohonynt eu bod yn cael cyfleoedd rheolaidd ar gyfer ymarfer corff trwy weithgareddau allgyrsiol a rhaglen '5x60'. Dywed llawer ohonynt fod yr ysgol yn eu haddysgu i fod yn iach, ac maent yn deall bod yr hyn y maent yn ei fwyta yn effeithio ar eu hiechyd.

Mae presenoldeb wedi bod yn agos at y cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg am y pum mlynedd diwethaf. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol, ac mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol yn isel. Mae disgyblion yn cyd-dynnu â'i gilydd yn dda, maent yn gwrtais ac yn dangos parch at eu cyfoedion a'u hathrawon. Maent yn groesawgar iawn tuag at ymwelwyr. Mae bron pob un ohonynt yn brydlon ar gyfer gwersi.

Er bod rhai disgyblion yn credu nad yw'r cyngor ysgol yn cynnwys safbwyntiau pob disgybl bob amser, mae wedi cyfrannu'n effeithiol tuag at agweddau ar fywyd yr ysgol. Mae'r rhain wedi cynnwys gwelliannau i amgylchedd yr ysgol, bwyta'n iach, a chynllunwyr disgyblion. Caiff safbwyntiau disgyblion eu hystyried yn ystod y broses o benodi staff hefyd.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol a medrau bywyd trwy wirfoddoli i helpu gyda gweithgareddau'r ysgol. Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 3, er enghraifft, yn dod i adnabod disgyblion yn yr ysgolion cynradd i'w helpu pan fyddant yn trosglwyddo i Fro Gwaun. Maent yn datblygu'r medrau hyn ymhellach trwy weithgareddau menter ac ystod eang o weithgareddau cymunedol fel cyngherddau a digwyddiadau diwylliannol eraill. Maent yn dangos y gallu i gydweithio'n dda mewn gweithgareddau grŵp mewn gwersi. Dangosant bryder am bobl eraill trwy lawer o ddigwyddiadau elusennol sy'n cynnwys wythnos elusennol flynyddol, neu gysylltiadau gyda sefydliadau gwirfoddolwyr fel rhaglen 'Bwydo Plentyn' Wganda.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae cwricwlwm cyfnod allweddol 3 wedi'i drefnu'n dda ac yn bodloni diddordebau ac anghenion y disgyblion yn briodol. Mae cysylltiadau effeithiol gydag ysgolion cynradd partner hefyd i nodi lefelau cyflawniad disgyblion ac ymestyn dilyniant y cwricwlwm. Mae'r ysgol, fel partner o fewn Ffederasiwn Gogledd Sir Benfro, yn darparu nifer ac ystod addas o ddewisiadau ôl-14 ac ôl-16 ac yn bodloni gofynion statudol. Er gwaethaf hyn, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dilyn cyrsiau a gynigir mewn sefydliadau eraill. Mae hyn yn bennaf oherwydd y pellter dan sylw a'r ffaith fod nifer dda o gyrsiau ar gael yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn nodi disgyblion â medrau llythrennedd a rhifedd isel yn gynnar ac yn rhoi cymorth trefnus iddynt yn unigol neu mewn grwpiau bach. Mae hyn yn eu galluogi i ymdopi â'r cwricwlwm, ac mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd da. Mae'r ysgol wedi cymryd camau effeithiol eraill hefyd i wella medrau rhifedd a llythrennedd. Mae ffocws diweddar ar ysgrifennu estynedig, er enghraifft, wedi arwain at bwyslais cynyddol ar lythrennedd ar draws yr ysgol. Mae llawer o gynlluniau gwaith adrannol yn awr yn cynnwys tasgau a strategaethau addysgu addas i alluogi gwahanol bynciau i gyfrannu at ddatblygiadau llythrennedd yn benodol. Fodd bynnag, nid yw rhai adrannau yn mynd i'r afael â'r mater hwn yn effeithiol, ac nid yw'r camau a gymerwyd wedi cael digon o effaith eto yn gyffredinol gan eu bod yn gymharol newydd.

Mae ystod eang o gyfleoedd allgyrsiol sy'n cael eu mynychu gan nifer dda o ddisgyblion yn cynnwys cerddoriaeth, chwaraeon, a gweithgareddau cymdeithasol,

diwylliannol ac entrepreneuraidd. Mae'r rhain yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad disgyblion. Mae mentrau diddorol fel stiwdio 3D newydd a 'Calon y Coridorau', sef gorsaf radio cyfrwng Cymraeg yr ysgol, yn cynnig cyfleodd da i grwpiau o ddisgyblion ddatblygu eu blaengaredd tra byddant yn gweithio mewn tîm. Mae llawer o weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg yn gwella eu gwybodaeth am y dimensiwn Cymreig a'r iaith Gymraeg.

Mae'r cynnydd graddol diweddar yn nifer y pynciau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddatblygiad priodol o ystyried y nifer a dderbynnir yn yr ysgol, ei safle daearyddol, dymuniadau disgyblion a rhieni, a'r staff sydd ar gael ac yn gallu addysgu yn Gymraeg. Mae system ymyrraeth effeithiol, 'Prosiect Trochi', yn helpu dysgwyr Cymraeg i wella eu rhuglder a'u hyder, ac yn eu galluogi i ddilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth briodol o addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, yn bennaf trwy bynciau fel daearyddiaeth, hanes, addysg grefyddol ac addysg bersonol a chymdeithasol.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu'n dda neu'n well mewn llawer o wersi. Mewn rhai o'r gwersi hyn, gwelir nodweddion rhagorol. Mewn rhai gwersi, mae'r addysgu'n ddigonol neu, mewn ychydig iawn o achosion, yn anfoddhaol.

Yn y gwersi lle mae'r addysgu'n dda, mae athrawon yn cynllunio'n ofalus i ddarparu amrywiaeth o dasgau diddorol a bywiog, gyda chymysgedd da o weithgareddau dosbarth cyfan a grwpiau bach. Maent yn sicrhau bod gwersi'n symud yn dda, gan ddefnyddio terfynau amser ar gyfer tasgau weithiau, yn creu adnoddau deniadol sy'n briodol i allu'r disgyblion, ac yn defnyddio cyfryngau electronig yn dda. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn deall beth y maent yn mynd i'w wneud, yn holi cwestiynau treiddgar, ac yn atgyfnerthu dealltwriaeth gyda sesiynau crynhoi effeithiol. Mae athrawon yn rheoli'r dosbarth yn effeithiol ac yn dawel, ac yn ennyn sylw disgyblion mewn ffordd gyfeillgar. Mae llawer o athrawon yn datblygu medrau iaith disgyblion yn effeithiol, a'u medrau rhifedd o bryd i'w gilydd. Mewn rhai pynciau, er enghraifft, Cymraeg ac addysg gorfforol, mae athrawon yn darparu tasgau trefnus gan ddefnyddio cyfrifiaduron, ac yn cefnogi'r tasgau hyn gyda chyfarwyddyd effeithiol i'r dosbarth cyfan. Mae rhai athrawon yn defnyddio Cymraeg achlysurol yn arbennig o dda yn y dosbarthiadau cyfrwng Saesneg.

Pan mae'r addysgu'n ddigonol, y prif ddiffygion yw diffyg rhediad, cynllunio annigonol, adnoddau gwael, neu weithgareddau nad ydynt yn gweddu'n dda i allu'r disgyblion. Mewn ychydig iawn o wersi, mae rheolaeth wan yn yr ystafell ddosbarth yn arwain at ddysgu gwael. Mae methiant i addasu'r gweithgareddau cynlluniedig wrth i'r wers fynd rhagddi weithiau'n cyd-fynd â hyn.

Mae gan yr ysgol system effeithlon ar gyfer casglu a storio gwybodaeth asesu.

Mae bron pob un o'r athrawon yn rhoi adborth llafar rheolaidd a phriodol i ddisgyblion yn ystod gwersi. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Mae mwyafrif ohonynt yn rhoi adborth ysgrifenedig defnyddiol i

ddisgyblion ar safon eu gwaith, sy'n esbonio'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, mae sylwadau athrawon yn anghyson, weithiau o fewn adrannau hyd yn oed. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw'r sylwadau'n ddigon penodol i helpu disgyblion i wybod eu lefel cyflawniad presennol na sut i wella i symud i'r lefel nesaf. Dim ond lleiafrif o athrawon sy'n sicrhau bod disgyblion yn cywiro'u gwaith ar ôl ei farcio. Mae llawer o athrawon yn annog disgyblion i arfarnu eu gwaith eu hunain, ond er bod yr arfer o arfarnu gwaith disgyblion eraill yn cael ei defnyddio'n dda mewn rhai adrannau, mae hyn yn gyfyngedig.

Mae adroddiadau i rieni yn glir a llawn gwybodaeth, ac yn nodi cryfderau, gwendidau a thargedau ar gyfer gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd cefnogol a gofalgar, sy'n hyrwyddo iechyd a lles disgyblion ac yn annog ymddygiad a phresenoldeb da. Mae'r cwricwlwm, trwy bynciau fel addysg grefyddol ac addysg bersonol a chymdeithasol, yn meithrin eu datblygiad personol a ffordd iach o fyw yn sylweddol. Mae'n helpu disgyblion i gael dealltwriaeth dda o amrywiaeth, yn cyfrannu'n dda at eu datblygiad diwylliannol ac yn rhoi cyfleoedd iddynt fyfyrio ar eu credoau. Mae rhai adrannau yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus, ond nid yw cyfnodau cofrestru bob amser yn canolbwyntio ar gredoau a gwerthoedd yn ddigon effeithiol. Mae gweithgareddau allgyrsiol fel chwaraeon yn cyfrannu'n sylweddol at iechyd a lles disgyblion.

Rhoddir ystod eang o gymorth ac arweiniad i ddisgyblion. Mae tiwtoriaid dosbarth, mentoriaid llythrennedd a rhifedd ac anogwyr dysgu yn rhoi cymorth ar faterion addysgol, yn ogystal â materion eraill. Mae swyddogion cymorth ymddygiad, cwnselwr yr ysgol a nyrs yr ysgol yn rhoi arweiniad ychwanegol ar faterion personol neu faterion iechyd fel addysg rhyw a pherthnasoedd, camddefnyddio sylweddau neu ddiogelwch tân. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn cynnal clwb cyfeillion bob amser cinio, gan roi cymorth i ddisgyblion iau ar faterion sy'n eu pryderu, fel bwlio. Mae ymwelwyr, fel gweithwyr proffesiynol meddygol, yr heddlu a'r gwasanaeth tân, yn cyfrannu at ddigwyddiadau arbennig ar gyfer pob disgybl am destunau o'r fath.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar waith ar gyfer diogelu.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu nodi'n briodol er mwyn iddynt allu dilyn cwricwlwm eang a chytbwys. Gwneir defnydd da o system yr ysgol ar gyfer olrhain disgyblion i fonitro cynnydd disgyblion unigol. Wedyn, cânt gymorth priodol gan staff yr ysgol a chan wasanaethau cymorth perthnasol, lle bydd angen. Mae cynlluniau seddi anarferol yr ysgol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am anghenion unigol pob disgybl ym mhob dosbarth ac maent yn helpu athrawon i fonitro disgyblion ag anawsterau dysgu yn effeithiol. Mae llawer o athrawon yn defnyddio'r rhain a chynlluniau addysg unigol y disgyblion yn dda i gynllunio gweithgareddau priodol mewn gwersi.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae amgylchedd yr ysgol yn gynhwysol, yn anogol ac yn gefnogol, ac yn annog disgyblion i weithio yn unol â'u potensial. Rhoddir gofal da i'r disgyblion. Mae'r ystod

o gyfleoedd cwricwlaidd ar gael yn gyfartal i bawb. Mae'r ysgol yn hyrwyddo dileu ymddygiad gormesol yn gadarn. Mae achosion yn anghyffredin, ond os byddant yn digwydd, cânt eu cofnodi a'u monitro yn gywir, ac ymdrinnir â nhw yn briodol. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn herio stereoteipiau yn agweddau disgyblion. Rhoddir cymorth da i ddisgyblion ac oedolion anabl.

Mae adeiladau a thir yr ysgol mewn cyflwr da ac yn cael eu cynnal yn dda iawn. Mae'r adeilad yn lân ac wedi'i addurno'n ddeniadol gyda llawer o arddangosiadau diddorol. Mae toiledau da, a rhai ohonynt wedi cael eu gwella'n ddiweddar. Mae'r adeiladau yn bodloni anghenion disgyblion ac oedolion anabl yn dda iawn.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth dros dro yn darparu arweinyddiaeth gref a gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Mewn cyfnod cymharol fyr, mae wedi datblygu cyfathrebu effeithiol gyda staff, disgyblion a rhieni. Caiff ei gefnogi'n dda gan yr uwch dîm rheoli, sy'n cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol.

Mae'r strwythur rheoli'n briodol. Mae cyfrifoldebau rheoli llinell yn glir, gyda chysylltiadau addas rhwng yr uwch dîm rheoli ac adrannau. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae gan staff ddisgrifiadau swyddi addas, maent yn deall eu rolau ac yn gweithio gyda'i gilydd yn dda.

Mae rhaglen gynhwysfawr o gyfarfodydd wedi cael ei threfnu ar draws y flwyddyn ar gyfer athrawon a rheolwyr ar bob lefel. Mae cofnodion y cyfarfodydd hyn yn aml yn cynnwys cofnod da o bwyntiau gweithredu dilynol, maent yn rhoi gwybodaeth dda i staff ac yn cyfrannu at wneud penderfyniadau. Mae arferion o ddydd i ddydd yn sefydledig ac effeithiol.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i flaenoriaethau cenedlaethol, yn enwedig o ran hyrwyddo llythrennedd, rhifedd a dwyieithrwydd. Hefyd, mae mentrau i wella perfformiad bechgyn a goresgyn effaith amddifadedd cymdeithasol ac economaidd. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd, ni chaiff y rhain eu cymhwyso'n ddigon trylwyr na'u cynnal yn gyson bob amser i sicrhau gwelliant cyson mewn safonau.

Mae system effeithiol o reoli perfformiad yn arwain at nodi a darparu hyfforddiant mewn swydd a chymorth priodol. Mae'n cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygiad proffesiynol pob un o'r staff ac at gynnal lefel dda o addysgu ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw'r broses wedi cael effaith ar wella ansawdd y marcio a'r asesu ar draws yr ysgol eto.

Mae'r corff llywodraethol yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae ganddo strwythur priodol o bwyllgorau i ystyried agweddau ar fywyd yr ysgol. Mae aelodau unigol yn deall eu rolau ac yn cefnogi'r ysgol yn dda mewn ystod o weithgareddau. Maent wedi datblygu dealltwriaeth lawnach o berfformiad yr ysgol yn ddiweddar ac maent yn awr mewn sefyllfa well i herio ble nodir tanberfformio. Mae'r corff llywodraethol yn cymryd rhan mewn cynllunio datblygiad yr ysgol, ond nid yw'n cael adborth ffurfiol ar adolygiadau adrannol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol nifer o brosesau defnyddiol i arfarnu darpariaeth a safonau. Mae'r rhain yn cynnwys craffu ar lyfrau disgyblion bob blwyddyn, adolygiadau adrannol ac adroddiad hunanarfarnu ysgol gyfan, sy'n dadansoddi perfformiad yr ysgol yn onest. Caiff y deilliannau o'r prosesau hyn eu defnyddio'n briodol i nodi blaenoriaethau ar gyfer y cynllun datblygu ysgol.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn dilyn strwythur sy'n debyg i fframwaith arolygu Estyn yn ddefnyddiol, ac mae'n defnyddio ystod briodol o dystiolaeth. Er bod yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth ddisgrifiadol fanwl am yr ysgol, nid oes digon o hunanarfarniad o berfformiad yr ysgol.

Caiff pob adran yn yr ysgol ei hadolygu'n ffurfiol gan aelodau'r uwch dîm rheoli, ond mae hyn yn digwydd unwaith bob tair blynedd yn unig. Mae tystiolaeth ar gyfer yr adolygiadau hyn yn cynnwys dadansoddi data, craffu ar ddogfennaeth a sampl fechan iawn o arsylwadau gwersi. Mae'r adroddiadau adolygu adrannol dilynol yn nodi cryfderau a meysydd priodol i'w gwella, yn ddefnyddiol. Mae'r broses hon yn fuddiol ar y pryd ac mae wedi galluogi uwch reolwyr i gael golwg gywir ar ansawdd yr addysgu yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae anamledd cymharol y gweithgarwch, a'r ymateb anghyson ymhlith adrannau wrth fynd i'r afael â meysydd i'w gwella, yn lleihau'r effaith ar wella safonau. At hynny, ni chaiff ymatebion adrannau eu monitro'n ddigon trylwyr.

Yn adroddiad hunanarfarnu'r ysgol ac yn yr adolygiadau adrannol, mae cofnodion o arsylwadau gwersi yn nodi cryfderau, ond nid ydynt yn cynnwys digon o arfarniadau beirniadol o addysgu, dysgu ac asesu, neu awgrymiadau ar gyfer gwella. At ei gilydd, nid yw'r ysgol yn cynnal arsylwadau gwersi'n ddigon rheolaidd.

Mae'r craffu blynyddol ar lyfrau disgyblion yn fforwm defnyddiol i reolwyr gyfarfod ag athrawon a thrafod safon y gwaith a gyflawnir gan sampl o ddisgyblion. Mae hyn yn helpu rheolwyr i ddatblygu dealltwriaeth well o ansawdd y gwaith. Fodd bynnag, cyfyngedig fu effaith y broses hyd yn hyn ar faterion fel mynd i'r afael â gwendidau mewn marcio ac asesu, a datblygu dull mwy cyson o wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn cynnwys blaenoriaethau priodol sy'n canolbwyntio ar godi safonau. Fodd bynnag, nid yw'r meini prawf llwyddo ar gyfer y camau bob amser yn benodol neu'n fesuradwy, ac nid yw'r cynllun cynnwys digon o fanylion am amserlenni a staff atebol. Mae adrannau'n cyfrannu at y cynllun ysgol gyfan, ond lleiafrif ohonynt yn unig sy'n amlinellu camau a thargedau adrannol priodol. Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â'r mwyafrif, ond nid pob un o'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn ymwneud ag un o'r gweithgorau i hyrwyddo gwelliant yr ysgol mewn meysydd fel addysgu, dwyieithrwydd neu ymddygiad. Mae'r rhain wedi cael buddion cadarnhaol. Fodd bynnag, megis dechrau y mae mentrau addawol eraill, ac nid ydynt wedi cael digon o effaith eto, er enghraifft ar ganlyniadau arholiadau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod eang o bartneriaid. Mae'r partneriaethau gyda rhieni yn gryf ac mae'r cysylltiadau agos gydag ystod eang o sefydliadau yn y gymuned leol yn cefnogi lles disgyblion ac yn ymestyn eu profiadau dysgu, yn ogystal â chyfrannu at y gymuned.

Mae gwaith effeithiol gyda'r ysgolion cynradd partner yn sicrhau cyfnod pontio didrafferth o gyfnod allweddol 2 ac yn helpu disgyblion i ymgynefino'n gyflym. Gwelir rhai enghreifftiau o fentrau buddiol. Mae'r rhain yn cynnwys y cwrs trochi Cymraeg, a drefnir mewn cydweithrediad â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, sy'n datblygu medrau iaith disgyblion Blwyddyn 6 ac yn eu galluogi i astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. Enghreifftiau eraill yw rhaglen bontio gwyddoniaeth lwyddiannus yr ysgol, a ddefnyddir yn helaeth yn yr awdurdod lleol, a hyrwyddo llythrennedd mewn ysgolion cynradd gan dimau chwaraeon yr ysgol trwy ymweliadau a phosteri deniadol.

Mae partneriaethau gydag ysgolion uwchradd a cholegau lleol yn cynyddu ystod y cyrsiau a gynigir i ddysgwyr rhwng 14 a 19 oed, er mai prin yw'r disgyblion sy'n manteisio arnynt.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Caiff cyllideb yr ysgol ei rheoli'n ofalus gan y pennaeth dros dro a swyddog cyllid yr ysgol, a'i monitro gan bwyllgor o'r corff llywodraethol. Caiff gwariant ei gynllunio'n ofalus a'i flaenoriaethu'n briodol. Mae'r gyllideb yn galluogi'r ysgol i ddarparu staff addysgu priodol sy'n meddu ar gymwysterau da a gaiff eu defnyddio'n effeithiol. Ar hyn o bryd, gan nad oes pennaeth parhaol, mae gan yr ysgol nifer o reolwyr mewn rolau dros dro. Mae hyn wedi rhoi cyfleoedd da ar gyfer datblygiad proffesiynol. Caiff athrawon eu cefnogi'n dda gan nifer dda o gynorthwywyr cymorth dysgu. Mae'r tîm o staff nad ydynt yn addysgu yn cyfrannu'n dda iawn at redeg yr ysgol yn ddidrafferth. Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau dysgu da.

Caiff adnoddau eu rheoli'n dda. Fodd bynnag, gan fod safonau'n ddigonol, bernir bod gwerth am arian yn ddigonol.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 wedi gwella'n raddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf ar ôl gostyngiad sylweddol yn 2009. Yn 2011, fe wnaeth perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd fodloni disgwyliadau ar sail perfformiad disgyblion yn eu hysgolion cynradd. Fodd bynnag, roedd yn parhau i fod islaw'r cyfartaleddau ar gyfer ysgolion tebyg a Chymru gyfan. Mae perfformiad mewn Saesneg a mathemateg ar lefel 5, lefel 6 a lefel 7 fel arfer wedi bod ymhell islaw'r cyfartaleddau ar gyfer ysgolion tebyg a Chymru a disgwyliadau wedi'u seilio ar gyfnod allweddol 2, yn enwedig ar y lefelau uwch. Er y bu gwelliant graddol, roedd yn parhau i fod islaw cymaryddion yn 2011, ac ar gyfer lefel 5, roedd yn golygu bod yr ysgol yn y trydydd chwarter meincnod o ysgolion tebyg ar sail cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi bod yn debyg i berfformiad mewn Saesneg a mathemateg ar lefel 5, ond mae wedi bod yn well na chymaryddion ar y lefelau uwch ar y cyfan. Mae perfformiad mewn Cymraeg wedi bod yn dda. Ar lefel 5, mae wedi bod yn llawer gwell na'r cyfartaleddau ar gyfer ysgolion tebyg a Chymru gyfan, gyda phob disgybl yn cyflawni'r lefel yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd perfformiad ar lefelau uwch y llynedd hefyd uwchlaw cyfartaledd Cymru a rhoddodd yr ysgol yn y chwarter meincnod cyntaf. Roedd perfformiad Cymraeg ail iaith yn y chwarter cyntaf ar gyfer 2011 ar lefel 5 hefyd, ond roedd ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg ar y lefelau uwch.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad ar drothwy lefel 2, yn cynnwys Cymraeg mamiaith neu Saesneg a mathemateg, wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf. Erbyn 2011, roedd ychydig uwchlaw disgwyliadau ar sail cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Roedd perfformiad yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ac ar gyfer ysgolion tebyg, ond roedd wedi bod islaw'r rhain yn y ddwy flynedd flaenorol. Mae perfformiad ar drothwy lefel 2 wedi gwella'n ddiweddar hefyd, ond dim ond i'r un lefel â'r hyn a fu mewn blynyddoedd blaenorol. Yn 2011, roedd ychydig islaw'r cyfartaleddau ar gyfer ysgolion tebyg a Chymru gyfan, a disgwyliadau wedi'u seilio ar gyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae perfformiad yn y pynciau craidd wedi bod yn anghyson, ond bu gwelliant ym mhob un ohonynt y llynedd. Mewn Saesneg a mathemateg, mae deilliannau ar lefel 2 fel arfer wedi bod islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg. Maent wedi bod islaw cyfartaledd Cymru hefyd, ond roeddent yn agos iawn ato'r llynedd. Yn 2011, fe wnaeth perfformiad yn y ddau bwnc olygu bod yr ysgol yn y trydydd chwarter meincnod o ysgolion tebyg ar sail cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, ond roedd ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Roedd lefelau perfformiad yn y trydydd chwarter yn 2010 hefyd. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth ar lefel 2 wedi bod yn gyson well na chyfartaledd Cymru ac wedi cymharu'n dda â pherfformiad ysgolion tebyg. Y llynedd, gosododd yr ysgol yn yr ail chwarter, ac roedd wedi golygu bod yr ysgol yn y chwarter cyntaf neu'r ail chwarter mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd perfformiad mewn Cymraeg mamiaith yn well na'r ysgolion tebyg a chyfartaleddau Cymru yn 2011, ond islaw'r rhain yn y ddwy flynedd flaenorol. Fe wnaeth perfformiad olygu bod yr ysgol yn y chwarter meincnod cyntaf yn 2011, ond yn y trydydd yn y ddwy flynedd flaenorol.

Yn y chweched dosbarth, mae perfformiad wedi bod yn gyson agos at gyfartaledd Cymru ar gyfer disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 3. Y llynedd, cyflawnodd 94% o fyfyrwyr y lefel hon, sydd ychydig islaw cyfartaledd Cymru, sef 96%. Mae'r sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach wedi gwella, ac roedd ychydig uwchlaw cyfartaledd Cymru y llynedd.

Yn y tair blynedd diwethaf, ychydig iawn o ddisgyblion sydd wedi gadael addysg amser llawn heb gymhwyster.

Mae perfformiad bechgyn yn wannach na pherfformiad merched mewn Saesneg yng nghyfnod allweddol 3. Mae'r bwlch o ran rhyw yn debyg i'r un yng Nghymru gyfan ar lefel 5, ond mae'n llawer ehangach ar lefelau 6 a 7. Mae bechgyn yn perfformio'n well na merched mewn mathemateg a gwyddoniaeth ar lefel 5, ond mae'n llawer gwaeth ar lefelau 6 a 7. Mewn Cymraeg mamiaith, dim ond bwlch bach o ran rhyw oedd ar lefel 5, ond roedd y bwlch yn llawer mwy ar lefel 6 ac yn uwch. Yng nghyfnod allweddol 4, mae bechgyn yn aml wedi perfformio cryn dipyn yn waeth na merched. Mewn Saesneg, roedd y bwlch yn eithriadol o eang yn 2011 ac yn fawr hefyd, ond yn llai nodedig, mewn Cymraeg mamiaith. Roedd gwahaniaethau eang yn 2010 hefyd. Mewn mathemateg a gwyddoniaeth, roedd y bwlch o ran rhywedd gryn dipyn yn ehangach na'r bwlch cyfartalog ar gyfer Cymru yn 2011, ond yn eithaf bach yn 2010. Yn y chweched dosbarth, perfformiodd bechgyn yn waeth na merched y llynedd, ond yn well na merched mewn rhai blynyddoedd blaenorol.

Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud yn sylweddol wael yng nghyfnod allweddol 4 o gymharu â disgyblion eraill. Yn 2011, dim ond 11% o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a gyflawnodd trothwy lefel 2, yn cynnwys Cymraeg mamiaith neu Saesneg a mathemateg, o gymharu â 59% o ddisgyblion eraill. Roedd bwlch tebyg yn nhrothwy lefel 2 hefyd. Mae'r bwlch hwn mewn perfformiad yn llawer ehangach nag ydyw yn genedlaethol. Mae'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng y grwpiau hyn yn llai arwyddocaol yng nghyfnod allweddol 3.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Holiadur i ddysgwyr**

Cafodd Estyn ymatebion gan 153 o ddysgwyr, a ddewiswyd ar hap ar draws yr ystod oedran. Dangosodd ymatebion disgyblion yn yr holiadur i ddysgwyr eu bod yn gwerthfawrogi’r ysgol. Ym mhob cwestiwn ond un, roedd eu hymatebion yn agos at feincnodau cenedlaethol ar gyfer ysgolion uwchradd.

Dywed llawer o ddisgyblion fod yr ysgol yn delio’n dda â bwlio, tra bod y rhan fwyaf ohonynt yn dweud bod rhywun y gallant siarad ag ef/â hi os ydynt yn poeni, a dywed pob un ohonynt eu bod yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol.

Dywed llawer ohonynt fod yr ysgol yn eu haddysgu ynglŷn â sut i fod yn iach, a dywed y rhan fwyaf ohonynt eu bod yn cael digonedd o gyfleoedd i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Dywed y rhan fwyaf ohonynt fod athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd, eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer, a bod yr ysgol yn eu helpu i baratoi ar gyfer y dyfodol. Dywed llawer ohonynt fod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith.

Dywed llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a’r chweched dosbarth eu bod wedi cael cyngor da wrth ddewis cyrsiau yn y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Dywed y mwyafrif ohonynt fod yr ysgol yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn gwneud newidiadau y maent yn eu hawgrymu. Dywed y rhan fwyaf ohonynt eu bod yn cael eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain a chymryd cyfrifoldeb, a bod yr ysgol yn eu helpu i ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill.

Dywed llawer ohonynt fod staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn eu parchu, tra bod y rhan fwyaf ohonynt yn dweud bod staff yn eu parchu nhw’n bersonol a’u cefndir.

Dywed ychydig dros hanner ohonynt fod disgyblion yn ymddwyn yn dda. Mae’r ymateb hwn yn fwy negyddol na’r meincnod cenedlaethol.

**Holiadur i rieni**

Cafodd Estyn 81 o ymatebion i’r holiadur i rieni. Roedd canrannau’r ymatebion cadarnhaol yn yr holiadur i rieni yn agos at y meincnodau cenedlaethol yn y rhan fwyaf o gwestiynau. Roedd rhai ohonynt yn fwy negyddol.

Dywed bron pob un o’r rhieni eu bod yn fodlon â’r ysgol a bod eu plant yn ddiogel yno. Dywed y rhan fwyaf ohonynt fod eu plant yn hoffi’r ysgol a’i bod yn cael ei rhedeg yn dda. Dywed y rhan fwyaf ohonynt hefyd y cafodd eu plant gymorth i ymgynefino’n dda wrth ddechrau yn yr ysgol, eu bod yn gwneud cynnydd da a bod disgwyl iddynt weithio’n galed. Dywed y rhan fwyaf ohonynt hefyd fod eu plant yn

cael eu hannog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd, a bod yr ysgol yn helpu i wneud ei disgyblion yn fwy aeddfed a chymryd cyfrifoldeb. Dywed llawer ohonynt fod yr ysgol yn eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg neu'u gwaith, ond mae'r ymateb hwn ychydig yn is na'r meincnod cenedlaethol. Dywed y rhan fwyaf ohonynt fod ystod dda o weithgareddau, a bod yr ymateb i hyn yn uwch na'r meincnod cenedlaethol. Dywed y rhan fwyaf ohonynt fod gwaith cartref yn adeiladu ar yr hyn sy'n cael ei ddysgu yn yr ysgol, a bod yr addysgu'n dda. Dywed llawer ohonynt fod disgyblion yn ymddwyn yn dda, ond mae'r ymateb hwn islaw'r meincnod cenedlaethol.

Dywed llawer ohonynt fod staff yn dangos parch at y plant a bod eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol lle bydd angen. Dywed y rhan fwyaf ohonynt eu bod yn gyfforddus yn mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem, a dywed llawer ohonynt eu bod yn cael gwybod yn dda am gynnydd eu plant. Mae llawer o rieni'n gwybod sut i wneud cwyn.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Steffan James | Arolygydd Cofnodol |
| Gareth Wyn Jones | Arolygydd Tîm |
| Ray Owen | Arolygydd Tîm |
| Ann Jones | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Dewi Lake | Arolygydd Cymheiriaid |
| Sian Bowen | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion |

| | |
|---|---|
| | tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |